# Cynilwr Misol Rheolaidd

Cynlluniwyd y cyfrif cynilo hwn yn benodol ar gyfer cwsmeriaid dros 18 oed sy'n chwilio am gyfrif ble gallant gynilo rhwng £25 a £2,500 y mis arian a chael mynediad ar unwaith i'w harian. Bydd balans y cyfrif ar ôl 12 mis ar ôl agor y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i gyfrif mynediad ar unwaith cysylltiedig a ddelir gyda'r Gymdeithas. **Gall deilia(i)d y cyfrif barhau i dalu'n fisol i'r cyfrif hwn heb weld toriad mewn adneuon, gyda'r cynilo'n parhau o falans o sero.** Dim ond ar gyfer ymgeiswyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu aelodau presennol (sy'n byw yn y Deyrnas Unedig) y mae ein cynhyrchion cynilo ar gael.

SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

## Blwch crynodeb – Gwybodaeth Allweddol am y Cynnyrch:

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfrif | Cynilwr Misol Rheolaidd |
| Beth yw'r gyfradd llog? | • 4.00% GROS / 4.07% AER Amrywiol – 01.07.2026<br>• Mae llog yn amrywio ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol ar y balans yn y cyfrif a'i ychwanegu at y cyfrif ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.<br>• Telir llog yn gros heb i dreth gael ei dynnu. Os yw cyfanswm y llog a enillwch yn fwy na'ch Lwfans Cynilo Personol yna efallai y bydd angen i chi dalu treth yn uniongyrchol i CThEM. Am ragor o wybodaeth ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Personal Savings Allowance'.<br>• Ystyr AER yw Cyfradd Flynyddol Gyfatebol (Annual Equivalent Rate) ac mae'n darlunio beth fyddai'r gyfradd llog pe telid y llog a'i ychwanegu'n flynyddol.<br>• Nodwch os gwelwch yn dda fod y driniaeth o ran treth a'r gyfradd llog sy'n daladwy, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob cwsmer, ac fe allant newid yn y dyfodol.<br>• Bydd y gyfradd llog ar gyfer y cyfrif hwn yn cael ei harddangos ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk er mwyn i gwsmeriaid gael mynediad a monitro o bryd i'w gilydd yn ôl y galw. |
| A all Swansea Building Society newid y gyfradd llog? | • Gall – mae cyfraddau llog yn amrywiol, sy'n golygu y gall y gyfradd llog fynd i fyny ac i lawr, a gellir eu newid ar unrhyw adeg.<br>• Byddwn ni'n rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig drwy'r post ynghylch unrhyw newid arfaethedig i'n cyfraddau llog. Byddant hefyd yn cael eu postio ar ein gwefan, www.swansea- bs.co.uk neu gallwch ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd cangen a restrir ar gefn y daflen hon, neu'u ffonio. Gellir cael manylion am gyfraddau llog cyfrifon cynilo eraill Swansea Building Society yn ein taflen 'Detholiad o Gyfrifon Cynilo' sydd ar gael drwy ymweld ag un o'n canghennau, neu'u ffonio neu ar lein ar **www.swansea-bs.co.uk**.<br>• Er mwyn deall pam y gallai cyfraddau gael eu gostwng, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweinyddu Cyfrifon Cynilo. |
| Beth fyddai'r amcangyfrif o falans ar ôl 12 mis? | • **Balans arfaethedig** = £1,226.43 (Mae'r ffigwr hwn i bwrpasau darlunio'n unig, ac nid yw'n ystyried amgylchiadau unigol y cwsmer, yn seiliedig ar wneud adnau o £100 i'r cyfrif ar ddiwrnod cyntaf pob mis, a'r llog yn cael ei ychwanegu i'r cyfrif ar ddiwedd pob mis. Mae hefyd yn tybio na fydd dim newid i'r gyfradd llog o fewn y cyfnod<br>o 12 mis. Yn hytrach na chael ei ychwanegi at y cyfrif, gellir talu'r llog i chi ar ddiwedd pob mis, a phe dewisid hynny, y balans arfaethedig ar eich cyfrif fyddai £1,200.00.) |
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • I agor cyfrif, rhaid eich bod yn preswylio yng Nghymru. Galwch yn un o'n canghennau neu llenwch ffurflen gais a'i phostio atom ynghyd â siec yn daladwy i '(eich enw)'. I gael mwy o fanylion am ein proses Adnabod, gweler ein Taflen Profi eich Hunaniaeth sydd ar gael o swyddfeydd cangen neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Lleiafswm y buddsoddiad misol yw £25 a'r uchafswm buddsoddi misol yw £2,500. Rhaid gwneud o leiaf un adnau bob mis.<br>• Uchafswm y buddsoddiad bob blwyddyn yw £30,000. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon gyda'r Gymdeithas yw £1.5m. (Nodwch fod gan rai cynhyrchion cynilo derfynau cynnyrch unigol. Gofynnwch i'n staff, ne gweler tudalennau we am fwy o wybodaeth.)<br>• Heblaw am yr adnau cyntaf, y gellir ei wneud gyda cherdyn debyd / arian parod (mewn cangen yn unig) neu siec, rhaid i chi wneud un taliad misol rheolaidd drwy gyfrwng Archeb Sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol (dan gyfarwyddyd y Gymdeithas) o Gyfrif Banc / Cymdeithas Adeiladu yn y DU neu drwy drosglwyddiad mewnol o gyfrif arall a ddelir gyda'r Gymdeithas. Dylid gosod yr Archeb Sefydlog ar gyfer unrhyw ddydd yn ystod y mis canlynol gyda'ch banc (hyd at y 26ain). Gellir gwneud taliadau ychwanegol i'r cyfrif yn electronig neu o Gyfrif Cynilo Mynediad Ar Unwaith a ddelir gan y Gymdeithas, ar yr amod nad yw'r cyfanswm a adneuir yn ystod y mis yn fwy na £2,500.<br>• Bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau uchod yn arwain at gau'r cyfrif a throsglwyddo'r balans i gyfrif arall yr ydych chi'n ei ddal gyda'r Gymdeithas.<br>• Gallwch reoli eich cyfrif mewn cangen, dros e-bost, drwy'r post neu ar lein drwy neges ddiogel (yn ddibynnol ar feini prawf cymhwysedd Cyfrif Swansea Online, ar gael pan fyddwch chi'n clicio ar 'Cofrestru Nawr /Register Now' ar https://swansea-bs.co.uk/customer-support/online-registration). |

| | |
|---|---|
| Ydw i'n gallu codi arian? | • Ydych, does dim rhaid i chi roi rhybudd cyn cau eich cyfrif na chodi arian ohono.<br>• Gallwch godi arian o'ch cyfrif ar unrhyw adeg heb roi hysbysiad, heb golli llog na chael cosb, drwy ymweld â ni mewn cangen. Neu gallwch anfon eich cyfarwyddyd ysgrifenedig atom wedi'i lofnodi, drwy'r post, dros e-bost neu drwy gyfrwng ein gwasanaeth ar lein Swansea Online gan ddefnyddio'r gwasanaeth anfon neges ddiogel.<br>• Y lleiafswm y gellir ei godi yw £1 (neu lai os yw'r cyfrif yn cael ei gau). Isafswm y balans y mae angen ei ddal yn y cyfrif hwn yw £1.<br>• Uchafswm yr arian y gellir ei godi fesul cwsmer fesul dydd yw £1,000 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | • I weld y Telerau ac Amodau Cyffredinol sy'n berthnasol i'r cyfrif hwn, gweler "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo", sydd ar gael o'n canghennau neu ar lein ar **www.swansea-bs.co.uk**.<br>• Mae'r Gymdeithas yn rhan o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir gweld manylion y cynllun a phwy sy'n cael eu gwarchod ganddo ar www.fscs.org.uk.<br>• Fe all costau a ffioedd gwasanaeth fod yn berthnasol i'ch cyfrif. Amlinellir y rhain yn ein Toll Cynilo.<br>• Dan rai amgylchiadau, fe allwn wrthod cyfarwyddyd i weithredu cyfrif. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo.<br>• Mae'r cyfrif at ddefnydd personol, nid ar gyfer busnes, oni bai ei fod yn un o'n cyfrifon arbennig ar gyfer sefydliadau. |
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer Cyfrif Cynilwr Misol Rheolaidd | 1. Agor y cyfrif a Deiliad y Cyfrif:<br>Er mwyn gweithredu cyfrif, rhaid i'r ymgeisydd/ymgeiswyr fod yn 18 a throsodd. Gellir dal uchafswm o un Cyfrif Cynilwr Rheolaidd naill i dan un enw neu mewn enwau ar y cyd. Lleiafswm y buddsoddiad agoriadol yw £25 ac uchafswm y buddsoddiad agoriadol yw £2,500 ar gyfer cais unigol neu ar y cyd. Pan agorwyd y cyfrif o fis<br>Rhagfyr 2021, rhaid agor cyfrif mynediad ar unwaith gyda'r Gymdeithas i redeg ochr yn ochr â'r cyfrif(on) er mwyn derbyn arian ar ben blwydd agor y cyfrif. Rhaid i'r cyfrif hwn aros ar agor tra bo'r cyfrif cynilo Misol Rheolaidd yn dal ar agor.<br><br>2. Terfynau Buddsoddi:<br>Uchafswm y buddsoddiad bob blwyddyn yw £30,000. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon gyda'r Gymdeithas yw £1.5m. (Nodwch fod gan rai cynhyrchion cynilo derfynau cynnyrch unigol. Gofynnwch i'n staff, ne gweler tudalennau we am fwy o wybodaeth.)<br>3. Buddsoddi pellach:<br>Ar gyfer pob cyfrif a agorwyd ers Ionawr 2022, rhaid i chi wneud un taliad rheolaidd bob mis drwy gyfrwng archeb sefydlog neu ddebyd uniongyrchol (dan ein cyfarwyddyd ni) o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu allanol yn y DU neu drwy drosglwyddiad mewnol o gyfrif arall a ddelir gyda'r Gymdeithas. Gellir gwneud taliadau ychwanegol i'r cyfrif yn electronig neu o Gyfrif Instant Access Saver a ddelir gyda'r Gymdeithas yn ddibynnol ar y ffaith nad yw uchafswm yr adnau yn ystod y mis yn fwy na £2,500. Isafswm yr arian y gellir ei adneuo mewn unrhyw un mis yw£25 a'r uchafswm y gellir ei adneuo mewn unrhyw un mis yw £2,500. Rhaid derbyn y taliad isafsymiol drwy<br>gyfrwng archeb sefydlog neu ddebyd uniongyrchol (dan ein cyfarwyddyd ni) ymhob mis calendr. Pan fydd arian dros ben yn cael ei dderbyn, dychwelir arian o'r fath gan ddefnyddio'r un dull ag y'u hadneuwyd. Byddwn yn<br>caniatâu i gwsmeriaid dalu arian parod neu sieciau i mewn i'w cyfrif Regular Monthly Saver erbyn hyn, ar yr amod bod taliad electronig wedi'i drefnu ar gyfer adnau lleiafsymiol o £25 y mis.<br><br>4. Codi Arian:<br>Gallwch godi arian o'ch cyfrif heb roi rhybudd yn unol â chyfyngiadau'r Gymdeithas. Arddangosir manylion am derfynau codi arian parod a sieciau yn ein swyddfeydd cangen. Isafswm y balans ar y cyfrif yw £1. Os bydd balans y cyfrif yn syrthio islaw'r balans angenrheidiol lleiafsymiol, bydd gan y cynilwr 30 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwn ni hysbysid i'r cynilwr i ddod â'r balans yn ôl i'r lleiafswm, Os yw'r balans yn parhau o dan y lleiafswm ar ôl i'r cyfnod hysbysu ddod i ben, gallwn gau'r cyfrif heb roi hysbysiad pellach.<br><br>5. Llog:<br>Mae'r llog yn amrywio ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol ar y balans sydd yn y cyfrif. Credydir llog i'r cyfrif yn fisol a'i osod ar y cyfrif ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.<br><br>6. Talu'r balans ar ben blwydd blynyddol agor y cyfrif: Ar gyfer cyfrifon a agorwyd ar ôl Rhagfyr 2021 rhaid talu balans y cyfrif ar ôl 12 mis o agor y cyfrif allan o'r cyfrif i mewn i'r cyfrif mynediad ar unwaith penodedig a ddelir gyda'r Gymdeithas. Serch hynny, gall deilia(i)d y cyfrif barhau i dalu'n fisol i mewn i'r cyfrif hwn heb doriad yn yr adneuon. Ysgrifennir at ddeilia(i)d y cyfrif ar adeg pen blwydd blynyddol agor y cyfrif gyda chadarnhad o'r trosglwyddiad a wnaed. Ar gyfer cyfrifon a agorwyd cyn Rhagfyr 2021, rhaid talu balans y cyfrif ar ôl 12 mis ers agor y cyfrif allan o'r cyfrif i mewn i'r cyfrif penodedig a ddewiswyd. Ond gall deilia(i)d y cyfrif barhau i dalu'n fisol i mewn i'r cyfrif hwn heb doriad yn yr adneuon. Ysgrifennir at ddeilia(i)d y cyfrif ar adeg pen blwydd blynyddol agor y cyfrif gyda chadarnhad o'r trosglwyddiad a wnaed.<br><br>7. Telerau ac Amodau:<br>Mae'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol hyn yn berthnasol i'r cyfrif hwn yn ogystal â'n Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo. Pan fydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo a'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol, y Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol fydd yn berthnasol. |

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn fersiwn gryno o nodweddion allweddol y cyfrif cynilo, ac ni fwriedir iddynt fod yn lle darllen y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfrif.**

SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923

www.swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

fscs PROTECTED

SBS (CRMSP 1123)